# Cofnodion heb eu cadarnhau o Gyfarfod Agored y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol
# Iechyd Cyhoeddus Cymru
# ar 15 Mawrth 2023, 10:30
# Lleoliad: Trwy Microsoft Teams

| **Yn bresennol:** | | |
|---|---|---|
| Mohammed Mehmet | (MM) | Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol) |
| Kate Young | (KY) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Y Trydydd Sector) |
| **Yn Bresennol:** | | |
| Rachel Attwood | (RA) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Datblygu Sefydliadol ac Ymgysylltu |
| Liz Blayney | (LB) | Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Michelle Battlemuch | (MB) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweithrediadau, Tîm Gweithredol (Yn cynrychioli AJ) |
| Liz Heath | (LH) | Cynrychiolydd ochr staff |
| Tim Hooper | (TH) | Pennaeth Busnes a Chynllunio, Iechyd a Llesiant, Tîm Gweithredol (Yn cynrychioli AJo) |
| Stuart Silcox | (SS) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig, Ansawdd Diogelwch a Gweithwyr Proffesiynol Nyrsio Perthynol i Iechyd |
| Lucy Day | (LD) | Rheolwr Busnes, Pobl/y Gweithlu/AD |
| Neil Lewis | (NL) | Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol |
| Samantha Morgan | (SM) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Strategaeth Pobl, Mewnwelediadau a Gwasanaeth |
| Reanne Reffell | (RR) | Rheolwr Llywodraethu Dros Dro y Bwrdd |
| Stephanie Wilkins | (SW) | Cynrychiolydd ochr staff |
| **Ymddiheuriadau** | | |
| Rhiannon Beaumont-Wood | (RBW) | Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd |

| | | |
|---|---|---|
| Angela Cook | (AC) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr |
| Rupinder Dogra | (RD) | Pennaeth Partneru Pobl a Datblygu Sefydliadol |
| Andrew Jones | (AJ) | Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio |
| Angela Jones | (AJo) | Cyfarwyddwr Iechyd a Llesiant Dros Dro |
| Meng Khaw | (MK) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol. |
| Jan Williams | (JW) | Cadeirydd y Bwrdd |
| **Ysgrifenyddiaeth** | | |
| Andrew Morton | (AM) | Swyddog Cymorth y Bwrdd |

*Dechreuodd y cyfarfod am 10:30*

**PODC 1/2023.03.15 Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau**

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawodd bawb oedd yn bresennol.

**Nododd** y Pwyllgor yr ymddiheuriadau a dderbyniwyd.

**Nododd** y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i sicrhau cywirdeb y cofnodion ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu unwaith y cytunwyd ar y cofnodion yn y cyfarfod dilynol ym mis Ebrill 2023.

**PODC 2/2023.03.15 Datganiadau o Fuddiannau**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau’n ychwanegol i’r rhai a ddatganwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.

**PODC 3/2023.03.15 Polisïau i'w Cymeradwyo**

**Nododd** y Pwyllgor fod y polisïau a'r gweithdrefnau a grybwyllwyd eisoes wedi bod trwy'r prosesau ymgynghori priodol a amlinellwyd yn y Polisi, Gweithdrefn a dogfennau rheoli gweithdrefn ysgrifenedig eraill, gan gynnwys y Gronfa Ddata Ymgynghori Corfforaethol a'r Fforwm Partneriaeth Lleol, a bod pob un wedi'i gymeradwyo gan y Tîm Arweinyddiaeth.

**PODC 3.1/2023.03.15 Polisi a Gweithdrefn Absenoldeb am Resymau Teuluol**

**Ystyriodd** y Pwyllgor y Polisi a'r Weithdrefn Absenoldeb am Resymau Teuluol a nododd ei fod wedi disodli'r Polisi Absenoldeb Mamolaeth a Thadolaeth, a'i fod hefyd yn cynnwys pecyn cymorth.

Gofynnodd y Pwyllgor i Gymorth i Ofalwyr gael ei grybwyll ac y cyfeirir ato yn y polisi/gweithdrefn Absenoldeb am Resymau Teuluol. Eglurodd LD fod Absenoldeb i Ofalwyr wedi'i gynnwys yn y Polisi Absenoldeb Arbennig ond byddai'n sicrhau y croesgyfeirir at Gymorth i Ofalwyr ar draws yr holl bolisïau perthnasol ac y byddai'n diweddaru'r Polisi a'r Weithdrefn Absenoldeb am Resymau Teuluol yn unol â hynny. Cytunodd NL y byddai'r Tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol yn adolygu'r cais i Absenoldeb ar gyfer Gofalwyr gael ei ystyried yn y sefydliad yn benodol

**Cam Gweithredu: NL/LD**

Cytunodd NL i sicrhau bod polisïau wedi'u geirio'n gywir i adlewyrchu'r ffaith bod y Polisïau'n cyfeirio at bob gweithiwr beth bynnag fo hyd ei wasanaeth ac i'w wneud yn glir mai pythefnos oedd Absenoldeb Tadolaeth.

**Cymeradwyodd** y Pwyllgor y Polisi a'r Weithdrefn Absenoldeb am Resymau Teuluol yn amodol ar gynnwys newidiadau i adlewyrchu cymorth ar gyfer Absenoldeb i Ofalwyr, cyfnod Absenoldeb Tadolaeth a nodir yn glir a chymhwysedd yr holl staff. Byddai'r polisi a'r weithdrefn derfynol yn cael eu dosbarthu i'r Pwyllgor drwy e-bost.

**Cam Gweithredu: NL/LD**

| **PODC 3.2/2023.03.15** | **Polisi Defnyddio'r Gymraeg** |
| --- | --- |

**Ystyriodd** y Pwyllgor Polisi Defnyddio'r Gymraeg a oedd newydd ei lunio.

Cadarnhaodd LB y byddai Ysgrifennydd y Bwrdd newydd ei benodi yn cynnal adolygiad o'r cyfnod ymsefydlu ar gyfer Cyfarwyddwyr Anweithredol yn ystod haf 2023 ac y byddai cymorth ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad.

**Cam Gweithredu: LB**

Gan adlewyrchu ar yr ymadrodd 'cwrteisi ieithyddol' yn y Polisi, cydnabu aelodau'r Pwyllgor bwysigrwydd sicrhau bod pobl yn teimlo eu bod wedi eu hannog ac yn gyfforddus wrth ddefnyddio'r Gymraeg ar bob lefel o fewn yr amgylchedd gwaith.

Diolchodd NL i'r Pwyllgor am adborth cadarnhaol ar y defnydd o Bolisi'r Gymraeg. Dywedodd wrth y Pwyllgor y byddai rheolwr newydd y Gymraeg yn dechrau ar ei waith yn y gwanwyn ac y byddai'n cynnal adolygiad llawn o'r defnydd o'r Gymraeg yn y Sefydliad.

**Cymeradwyodd** y Pwyllgor y Polisi Defnyddio'r Gymraeg.

| **PODC 3.3/ 2023.03.15** | **Polisi Gwyliau Blynyddol** |
| --- | --- |

**Ystyriodd** y Pwyllgor y polisi Gwyliau Blynyddol, gan **nodi** bod y fersiwn newydd yn cynnwys y cynllun prynu gwyliau blynyddol.

**Cymeradwyodd** y Pwyllgor y Polisi Gwyliau Blynyddol.

| **PODC 3.4/ 2023.03.15** | **Y Polisi a'r Weithdrefn Cofrestru ar gyfer Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol** |
|---|---|

**Ystyriodd** y Pwyllgor y Polisi a'r Weithdrefn Cofrestru ar gyfer Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol.

Ystyriodd a **chytunodd** y Pwyllgor i gais SW am fewnbwn pellach i'r polisi a'r weithdrefn.
**Cam Gweithredu: SS / SW**

Holodd y Pwyllgor a oedd proses adnewyddu systematig ar waith ar draws y sefydliad. Rhoddodd SW wybod am feysydd lle gallai rheolwyr wirio cronfa ddata ar-lein i sicrhau cydymffurfedd. Cytunodd SS i wneud gwaith dilynol gydag awdur y polisi a hysbysu'r Pwyllgor am y broses sydd ar waith.
**Cam Gweithredu: SS**

**Cymeradwyodd**y Pwyllgor  y Polisi a'r Weithdrefn Cofrestru ar gyfer Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol yn amodol ar waith ymgynghori ychwanegol â SW. Byddai'r polisi a'r weithdrefn derfynol wedyn yn cael eu dosbarthu i'r Pwyllgor drwy e-bost.

| **PODC 4/2023.03.15** | **Rheoli Risg** |
|---|---|

Cyflwynodd SS y ddwy Risg Strategol a'r ddwy Risg Gorfforaethol yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor a hysbysodd y Pwyllgor am y cynnig i ddod â thrydedd Risg Corfforaethol ar y cyd i'r Pwyllgor hwn ac i'r Pwyllgor Ansawdd, Gwella a Diogelwch, a oedd yn ymwneud â recriwtio a chadw Staff Gwasanaethau Sgrinio Gogledd Cymru.

Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd ynghylch rheoli gwaith cynllunio'r gweithlu yn y sefydliad.  Rhoddwyd SM sicrwydd i'r Pwyllgor y cysylltwyd â'r Cyfarwyddiaethau i gadarnhau y gellid cynnal y capasiti presennol a'r galw yn y dyfodol yn wyneb y newidiadau arfaethedig.  Megis cychwyn oedd y broses ac roedd wedi cynhyrchu data sylfaenol ariannol ac ar y gweithlu y gellid dibynnu arnynt er mwyn i'r sefydliad eu adeiladu arnynt.

Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad yn y cyfarfod nesaf o ran nodi dull y sefydliad o gynllunio'r gweithlu.
**Cam Gweithredu:  NL/NL**

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** fod risgiau Strategol a Chorfforaethol y sefydliad yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor yn cael eu rheoli'n briodol.

| **PODC 5/2023.03.15** | **Diweddariad ar y Gymraeg** |
|---|---|

Cyflwynodd RA Ddiweddariad ar y Gymraeg, gan amlygu:

- Llwyddiant wrth recriwtio Rheolwr y Gymraeg, a fyddai'n dechrau yn y gwanwyn;

- Ymateb y sefydliad i gwynion ynghylch postiadau cyfryngau cymdeithasol, gan nodi bod yr holl gamau gweithredu wedi'u rhoi ar waith;
- Cyflwynwyd tystiolaeth ynglŷn â mater o ran y wefan Gymraeg a disgwylir ymateb iddi;
- Roedd y Rhwydwaith Cymraeg wedi ei sefydlu ac wedi cynnal ei gyfarfod cyntaf.

Fe wnaeth y Pwyllgor y canlynol:
- Nodi bod y ddarpariaeth Gymraeg o fewn ESR yn gyfyngedig ac nad oedd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad. Roedd y mater wedi'i godi dro ar ôl tro ac roedd darpariaeth Gymraeg wedi'i chynllunio ar gyfer mis Ebrill;
- Nodi bod anawsterau wrth recriwtio staff dwyieithog i ymdrin â’r cyhoedd i sicrhau cydymffurfedd â Safon 17 o'r ddeddfwriaeth. Hysbysodd MB y Pwyllgor fod gwaith Cydymffurfio â Safonau’r Gymraeg wedi'i gynnwys ar Gofrestrau Risg y Gyfarwyddiaeth Diogelu Iechyd a Gwasanaethau Sgrinio ac felly yn cael ei drafod ym mhob cyfarfod Tîm Arweinyddiaeth y Cyfarwyddiaethau. Gofynnodd y Pwyllgor am ystyried a ellid cynnwys data ynghylch cydymffurfedd y sefydliad â'r safonau mewn dangosfwrdd. Cytunodd MM i godi'r mater yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol.

**Cam Gweithredu: MM**

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** o’r sefyllfa bresennol o ran y ddarpariaeth Gymraeg yn Iechyd Cyhoeddus Cymru a’r nodau a osodwyd ar gyfer y flwyddyn i ddod (i adfywio ein diwylliant dwyieithog a chryfhau ymwybyddiaeth ar draws y sefydliad o rwymedigaethau cydymffurfio pob tîm).

Yn dilyn mabwysiadu'r Polisi Cymraeg newydd, cytunodd RA ac NL i drafod fformat Diweddariad ar y Gymraeg yn y dyfodol gydag MM.

**Cam Gweithredu: NL/RA**

| **PODC 6/2023.03.15** | **Gweinyddiaeth i Gloi** |
|---|---|

Unrhyw Fater Arall: Dim.

Adborth y Pwyllgor:
- Gwahoddwyd aelodau'r Pwyllgor i roi eu hadborth ar y cyfarfod drwy e-bost gan gynnwys unrhyw feysydd a weithiodd yn dda, ac unrhyw feysydd i'w gwella;
- Awgrymwyd y dylid cynnal y broses ymgynghori gerbron Pwyllgorau er mwyn caniatáu amser mewn cyfarfodydd ar gyfer trafodaeth lawn;
- Roedd y Pwyllgor yn gwerthfawrogi'r amser yr oedd cyfarfod ar wahân wedi'i ganiatáu er mwyn neilltuo amser i gymeradwyo polisïau.

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:

| |
|---|
| • Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Mawrth 18 Ebrill 2023. |
| *Daeth y cyfarfod i ben am 11:49* |